

LIDO PONTY, LIDO CENEDLAETHOL CYMRU

DYSGU'R LIDO

PECYN ADDYSGOL



RHONDDA CYNON TAF



GWAITH DŴR

PECYN I ATHRAWON



LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund



Bwriad y pecyn hwn yw helpu athrawon i drefnu ac arwain ymweliad â Lido Ponty, Lido Cenedlaethol Cymru, mewn ffordd greadigol, hyderus, a llawn dychymyg. Mae'r awgrymiadau am weithgareddau'n hyblyg, ac rydyn ni'n annog athrawon i ddewis ac addasu'r deunyddiau fel eu bod yn bodloni eu hanghenion eu hunain o ran y pwnc a'r grŵp blwyddyn.

Trefnu ymweliad

Dilynwch y camau syml hyn i drefnu ymweliad rhad ac am ddim:

- Trefnwch eich ymweliad o leiaf bum niwrnod gwaith ymlaen llaw.
- Ffoniwch Lido Ponty ar **0300 004 0000** i ofyn a yw'r dyddiad sydd gennych mewn golwg ar gael.
- Pan fyddwch wedi cytuno ar ddyddiad ac amser gyda Lido Ponty, cadarnhewch y trefniant trwy lenwi'r ffurflen fydd yn cael ei hanfon trwy e-bost.

Bwriedir i'r gweithgareddau bara tua 90 munud, a gallwch hefyd drefnu sesiwn sgiliau allweddol a sesiwn nofio (yn ystod tymor yr haf yn unig), neu ymweld â maes chwarae antur y Lido, sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn.

Iechyd a Diogelwch

Athrawon ac arweinwyr grwpiau sy'n gyfrifol am gyflawni'r asesiadau risg cyn yr ymweliad, a hynny'n unol â chanllawiau eu hawdurdodau addysg lleol. Mae'r tudalennau dysgu ar wefan Lido Ponty'n cynnig cyngor penodol ar drefnu ymweliad, ac mae gwybodaeth am y safle ar gael ar gais.

Lido Ponty a'r Cwricwlwm

Rydyn ni wedi paratoi map y cwricwlwm ar gyfer pob gweithgaredd er mwyn cynorthwyo gwaith cynllunio'r athrawon. Mae'r map yn dangos sut y mae'r gweithgareddau yn y pecyn hwn yn berthnasol i'r deilliannau dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, a sut y maent yn cysylltu â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Dyluniwyd y rhaglen o weithgareddau gyda Chyfnod Allweddol 2 mewn golwg, ond mae yna gynnwys sy'n berthnasol i Gyfnod Allweddol 1 a'r Cyfnod Sylfaen hefyd, ac mae modd addasu'r gweithgareddau.

Cyn eich ymweliad

- Trafodwch beth y mae'r plant yn disgwyl ei weld yn Lido Ponty.
- Holwch a oes unrhyw un o'r plant wedi bod i Lido Ponty o'r blaen, ac os felly, gofynnwch beth wnaethon nhw yno?
- Crëwch siart cyfrif o'r gweithgareddau, a dangoswch iddyn nhw sut i greu siart bar gan ddefnyddio'r wybodaeth.

BYDD ANGEN DOD Â

Phensiliau neu
beniau ffelt

Papur Trasio

Cyfrifiannellau



Lido Ponty, Lido Cenedlaethol Cymru, yw'r unig bwll nofio awyr agored gweithredol sydd ar ôl yng Nghymru. Ynghyd â Pharc Coffa Ynysangharad, mae Lido Ponty'n enghraifft eiconaidd o ddarpariaeth drefol a grëwyd at ddiibenion hamdden y cyhoedd rhwng y ddau ryfel. Bydd ymweliad yn helpu i ddatblygu sgiliau hanes ac ymholi pob cyfnod allweddol.

Hanes

Agorodd Lido Ponty am y tro cyntaf ar 30 Gorffennaf 1927. Hi oedd y pwll nofio pwrpasol cyntaf ym Mhontypridd, a chafodd ei ddylunio gan W. E. Lowe. Cyngor Dosbarth Trefol Pontypridd oedd yn rhedeg y pwll, a chafodd ei ariannu i raddau helaeth gan Gronfa Lles y Glowyr. Treth ar elw'r diwydiant glo oedd yn ariannu'r Gronfa Les. Câi'r arian ei ddefnyddio i wella cyfleoedd cymdeithasol ac addysgiadol yn y cymunedau o gwmpas y pyllau glo.

Cyn adeiladu'r Lido, byddai pobl yn nofio ac yn ymdrochi yn yr afonydd cyfagos, fel afon Taf neu afon Rhondda, neu yng Nghamlas Morgannwg. Ond roedd y rhain wedi cael eu llygru'n ddifrifol gan ddiwydiant, a doedden nhw ddim yn llefydd diogel i bobl nofio. Yn wir, bu farw llawer o bobl ifanc ar ôl nofio mewn afonydd brwnt, a chynyddodd y galw am adeiladu pyllau nofio pwrpasol.

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, defnyddiodd Jenny James Lido Ponty wrth ymarfer i nofio ar draws y Sianel. Ar 16 Awst 1951, nofiodd Jenny o Ffrainc i Loegr mewn 13 awr a 55 munud. Hi oedd y person cyntaf o Gymru i gyflawni'r gamp.

Agorodd y Lido ar ei newydd wedd yn 2015. Cafodd nifer o nodweddion gwreiddiol y Lido eu hachub, gan gynnwys y giatiau tro a'r swyddfa docynnau.

Golwg ar y Lido

Cafodd y Lido gwreiddiol ei adeiladu yn yr arddull celfyddyd a chrefftau. Gallwch weld hyn yn rhannau hynaf yr adeilad ger y fynedfa flaen. Arddull art deco oedd ar yr ychwanegiadau a wnaed yn y 1930au, a gallwch weld esiamplau o hyn yn y swyddfa docynnau ac ar ddrysau'r stordy. Mae nodweddion eraill yn cynnwys y wal allanol gyfylchog a'r teils coch ar y to sy'n rhoi golwg Canoldirol i'r adeilad. Y Rhufeiniaid a ysbrydolodd y teils, ac roedd hyn yn adlewyrchu poblogrwydd hanes y Rhufeiniaid ganol y 1920au yn sgil darganfyddiadau yng Nghaerllion.

Byddai'r cyntedd yn dal i fod yn weddol gyfarwydd i'r ymwelwyr gwreiddiol. Ar y cychwyn, roedd dau ddrws i gyrraedd ymyl y pwll, a byddai'r nofwyr cyffrous yn mynd i mewn trwy'r giatiau tro. Cafodd y rhain eu gwneud ym Manceinion a Salford yng ngogledd Lloegr. Ar y chwith, wrth fynd i mewn, roedd swyddfa'r rheolwr. Gofalwr y baddonau oedd ei deitl yn y dyddiau hynny.

Nodweddion gwreiddiol yw'r blychau newid sy'n rhedeg ar hyd rhan allanol y pwll, ac maen nhw'n debyg i'r blychau newid rydych chi'n dal i'w gweld ar draethau heddiw. Pan agorodd y Lido'n wreiddiol, roedd modd llogi tywelion a gwisgoedd nofio gwlan! Câi'r rhain eu golchi yng ngolchdy'r Lido.

Mae'r llinell wen yn marcio maint gwreiddiol y pwll. Roedd hi bron â bod yn 50 metr o hyd ac yn 35 metr o led, felly Lido Ponty oedd y pwll nofio awyr agored mwyaf ym Maes Glo'r De.



Ydych chi wedi bod i'r baddonau Rhufeinig yng Nghaerllion? Sut maen nhw'n cymharu?

Mae'r ffotograff yn y pecyn adnoddau yn y Lido.

GWAITH DŴR GWEITHGAREDD 1 YSTAFELL DDOSBARTH



MAP CWRICWLWM

- **Mathemateg Sgiliau:** Datrys problemau mathemategol; cyfathrebu mathemategol **Ystod:** Mesuriadau
 - **Hanes Sgiliau:** Gwybodaeth hanesyddol a deall ymholi hanesyddol.
 - **Gwyddoniaeth Sgiliau:** Gwybodaeth wyddonol, ymholi gwyddonol.
- Cysylltiadau eraill â'r cwricwlwm Cymraeg:** Llafaredd

LLENWIR LIDO

Er bod Lido Ponty'n aros yn llawn trwy gydol y flwyddyn heddiw, pan agorodd y lle'n wreiddiol, byddai'n arfer cael ei wacáu, a'i lenwi eto ar ddechrau'r tymor nofio.

Defnyddiwyd dros 450,000 galwyn o ddŵr (dros ddwy filiwn litr). Gan weithio mewn grwpiau (yn ôl yr angen), defnyddiwyd y llinell wen sy'n rhedeg o amgylch ymyl y pwll i amcangyfrif ei hyd a'i led wreiddiol.

Roedd pen dwfn y Lido yn 7tr (2.1 metr) ac roedd y pen bas yn 3tr (90cm).

Cofiwch: gallwch amcangyfrif y pellter gan ddefnyddio camau. Mae tua thri cham yn gwneud un metr.

Athrawon ac arweinwyr grwpiau: nodwch ei bod hi'n gallu bod yn anodd mynd at ochr y pwll yn ystod tymor yr haf. Gallwch gyflawni'r gweithgaredd hwn fel ymarfer i gymharu'r pwll modern â'r llinell wen yn ôl graddfa hefyd, gan wneud amcangyfrifon yn seiliedig ar y gwahaniaethau.

Ym mis Mehefin 1939 roedd tân ar y teras i wylwyr y tu ôl i'r byrddau deifio. Cafodd y cyfleusterau deifio pren gwreiddiol, ar rhan fwyaf o'r eisteddle, eu dinistrio.



Adolygu

Edrychwch ar y pyllau nofio modern yn Lido Ponty.

Beth sy'n wahanol amdany'n nhw?

Ydyn nhw'n llai na'r Lido gwreiddiol?

Ydyn nhw'n debygol o fod yn fwy bas?

Yn wreiddiol, roedd gan Lido Ponty sleid dŵr a byrddau deifio, pam nad oes ganddo'r rhain mwyach?

Wrth ymyl y dŵr, cofiwch gadw'n **DDIOGEL**


CADWCH lygad yn agored am beryglon.

GOFYNNWCH am gyngor yr achubwyr bywyd, a gwrandewch arnynt.

EWCH â ffrind neu rywun gyda chi.

MEWN ARGYFWNG - ffoniwch 999 a gwaeddwch am gymorth.

GWAITH DŴR GWEITHGAREDD 2 YSTAFELL DDOSBARTH




MAP CWRICWLWM

- **Mathemateg Sgiliau:** Datrys problemau mathemategol; cyfathrebu mathemategol **Ystod:** Mesuriadau
 - **Hanes Sgiliau:** Gwybodaeth hanesyddol a deall ymholi hanesyddol.
 - **Gwyddoniaeth Sgiliau:** Gwybodaeth wyddonol, ymholi gwyddonol.
- Cysylltiadau eraill â'r cwricwlwm Cymraeg:** Llafaredd

PWLL GWAG

O na! Trwy ddamwain, mae Dai, achubwr bywyd Lido Ponty, wedi tynnu'r plwg yn un o'r pyllau ac mae'r holl ddŵr wedi mynd. Mae angen iddo wybod faint o ddŵr y bydd yn ei gymryd i llenwi'r pwll eto.
A allwch chi helpu Dai?



I fesur cyfaint y pwll, mae angen i ni wybod tri pheth: **hyd, lled a dyfnder y pwll.** Gyda'r mesuriadau hyn gallwn ddefnyddio fformwla i ganfod faint o ddŵr fydd ei angen i llenwi Lido Ponty eto, sef:

Hyd x Lled x Dyfnder = Cyfaint

Helpwch Dai i llenwi Lido Ponty. Mae e wedi mesur y pwll, mae'n:

25 metr o hyd • 10 metr o led • 1.5 metr o ddyfnder

Nodyn i athrawon: mae pwll gweithgareddau Lido Ponty'n 25 metr o hyd, 10 metr o led ac 1.5 metr o ddyfnder.

Gan weithio mewn grwpiau, defnyddiwch y mesuriadau hyn i gyfrifo cyfaint y pwll gweithgareddau yma yn Lido Ponty, a rhwch wybod i Dai faint o ddŵr fydd ei angen arno.

Datblygu

Dywedwch wrth Dai beth yw cyfaint Lido Ponty.

Cofiwch: **Cyfaint = Hyd x Lled x Dyfnder**

Nawr mae Dai'n gwybod faint o ddŵr sydd ei angen arno, ond mae'r cwmni dŵr am gael gwybod faint o ddŵr fydd Dai'n ei ddefnyddio mewn litrau. Mae hyn yn golygu bod angen iddo newid ei fesuriad, a ysgrifennodd mewn metrau ciwbig, i litrau. Trosi yw'r enw ar hyn.

A allwch chi helpu Dai i gyflawni'r trosiad?


Cofiwch fod un metr ciwbig (m³) gyfwerth â 1,000 litr. Felly i ganfod sawl litr sydd ei angen, bydd angen lluosu ein mesuriad cyntaf â 1,000.

Yn olaf, mae angen i Dai dalu'r cwmni dŵr am y dŵr a ddefnyddiodd i llenwi'r pwll. Rhaid i Dai dalu £1 am bob 500 litr y mae'n eu defnyddio.

Gan weithio mewn grwpiau, cyfrifwch beth fydd ei fil dŵr.

O'R DIWEDD!

Mae Dai wedi llenwi'r pwll.
Diolch!





MAP CWRICWLWM

- **Mathemateg Sgiliau:** Datrys problemau mathemategol; cyfathrebu mathemategol **Ystod:** Mesuriadau
 - **Hanes Sgiliau:** Gwybodaeth hanesyddol a deall ymholi hanesyddol.
- Cysylltiadau eraill â'r cwricwlwm Cymraeg:** Llafaredd

CAMP NOFIO JENNY

Jenny James o Bontypridd oedd y person cyntaf o Gymru i nofio ar draws y Sanel o Ffrainc i Loegr. Mae hynny'n daith o 21 o filltiroedd neu tua 33 o gilomedrau.

Fe wnaeth hi hyn ym 1951. Defnyddiodd Jenny James Lido Ponty with ymarfer ar gyfer y gamp. Yn y dyddiau hynny, roedd y pwll 45 o fetrau o hyd.

Sawl hyd byddai wedi cymryd iddi nofio'r pellter cyfatebol rhwng Ffrainc a Lloegr?

Ym 1949, ychydig flynyddoedd cyn iddi nofio'r Sanel, nofiodd Jenny Jones ar draws Môr Hafren rhwng Weston Super Mare a Phenarth. Y pellter rhwng y ddau fan yna yw 12 o filltiroedd, neu tua 19 o gilomedrau.


Sawl hyd o Lido Ponty byddai Jenny James wedi gorfod eu nofio i nofio'r pellter hwn?


Mae'n bosibl y bydd angen i chi dalgrynnu'r rhif.

Cymerodd hi 10 awr i Jenny James groesi Môr Hafren.

A allwch chi helpu Jenny i gyfrifo ei chyflymder?

Cyflymder = Pellter ÷ Amser





BOD YN ACHUBWR BYWYDAU

Mae achubwyr bywydau yn ein cadw ni'n ddiogel mewn pyllau nofio. Nhw sy'n gwisgo'r gwisgoedd coch. Maen nhw'n cael eu hyfforddi i achub pobl o'r dŵr ac i roi cymorth cyntaf i'r rhai sydd wedi cael eu hanafu.

Dewch i ddysgu rhai o'u sgiliau nhw!

LLUSGO A THYNNU

Ydych chi erioed wedi sylwi bod achubwyr bywydau yn cario fflotiau? Mae modd defnyddio fflotiau i lusgo pobl i fan diogel yn y pwll nofio. Byddwn ni'n ymchwilio i sut mae hyn yn gweithio, ac yn rhoi cynnig arni.

Gweithiwch mewn paruau: Bydd un ohonoch chi'n esgus dioddef anaf, a'r llall yn achubwr bywydau. Gwrandewch yn astud ar gyfarwyddiadau staff y Lido, a rhoi cynnig arni.

CYMORTH CYNTAF

Mae cymorth cyntaf sylfaenol yn sgil hanfodol. Mae pob achubwr bywydau yn cael ei hyfforddi i roi cymorth cyntaf. Mae angen i ni wybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Gwrandewch yn astud ar gyfarwyddiadau staff y Lido, a rhoi cynnig arni. Cofiwch eich bod chi wedi cwrrd â DR ABC!



Nodyn i athrawon ac arweinwyr grwpiau:

Dyma sesiwn ddewisol ar gyfer eich ymweliad, ac mae angen ei threfnu ymlaen llaw gyda staff y Lido.

Os ydych chi eisiau ychwanegu'r sesiwn yma i'ch amserlen, rhowch wybod i ni pan fyddwch chi'n trefnu eich ymweliad.